

Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Wednesday, 29 May 2024, at 2pm. Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

Councillors Present: Cllrs. Angela O'Connor (Chair) Rob Marshall (Vice Chair), Tim Zhou, Martin O'Neill, Richard Jarvis and Rhian Evans

Officer Present: Paul Beynon - RFO, Claire Anderson - Events Officer and Ian Hughes - CSO

Prior to the first agenda item, The Chair, Cllr, O'Connor welcomed everyone at her first meeting as the newly appointed Chair of the committee.

CT2405-01

Apologies for Absence

None

CT2405-02

Declarations of Interest

Cllr. Jarvis stated that during agenda item [CT2405-12](#) he may have a personal interest in one of the potential venues as he is a member at the location in question.

CT2405-03

Elect Vice Chair for Committee

Cllrs. Marshall and Zhou proposed themselves to be vice chair and these nominations were seconded by Cllrs. Jarvis and O'Neill respectively.

RESOLVED: Cllr. Rob Marshall was elected as Vice Chair of the Committee.

CT2405-04

Minutes of the Previous Meetings of the Committee

To approve the minutes of the meeting held on the 24th April 2024 as a true record.

RESOLVED: To approve the meeting minutes held on 24th April 2024 as an accurate record. Proposed by Cllr. Marshall and seconded by Cllr. Evans.

CT2405-05

Update on actions from previous meetings.

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members.

RESOLVED: Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

CT2405-06

Budget Monitoring Report to 31/03/2024 - RFO, Paul Beynon

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been provided to committee members, and no questions relating to the budget reports had been provided either to CSO or The RFO prior to the meeting.

The RFO explained that some outstanding expenditure will be shown under the 2023/2024 financial year period and that the figures shown will be amended accordingly.

The RFO then went through each item on his budgeting report detailing anticipated amounts to be 'carried over' and explaining underspent and overspent amounts as appropriate. With the agreement of the committee members present, the RFO also provided current, up to date figures taking into account expenditure since the March Report.

A discussion took place in relation how to utilise the 'underspent' budgets and clarification was obtained in relation to budgets remaining in relation to MumblesFest, The History of Mumbles Archive and Twinning Projects.

RESOLVED to approve the budget monitoring report to 31st March 2024.

RECOMMENDED to carry forward the amount of £2,000 from 'underspent' budgets to 2024/25 Financial Year.

CT2405-07

Essence of Mumbles: A photographic exploration

Cllr. Zhou had previously circulated a report providing further information on the proposed project. Cllr Zhou highlighted key aspects including provisional dates of 26th and 27th October for an exhibition at Ostreme. All committee members were enthusiastic about the project and consideration was given to the exhibition being held at venues across MCC for a week around the proposed dates. Such venues may include Oystermouth Library and village halls in Newton, Mayals and Blackpill.

The cost of the proposed project is estimated at £1,750 and it was proposed that £500 should be provided through the committee budget with the remainder being made up through individual officers' allowances. Cllrs. Zhou, Marshall and O'Neill all offered to contribute to make up the shortfall.

RECOMMENDED that £500 be made from the Culture Committee Budget towards the cost of the project cost (anticipated in total at £1,750) with the remainder being made up through Councillors individual allowances.

CT2405-08

MumblesFest (Update).

The Events Officer, Claire Anderson detailed her MumblesFest Report which had previously been circulated to committee members. The report included confirmation that banners and other methods of advertising were in place, confirmation of relevant event bookings, together with details of bar and vendors booked.

The line up of acts was detailed and ancillary items including tickets, wristbands, risk assessments and social media outputs also outlined.

CT2405-09

MumblesFest Booking Recommendations

Further to April's Committee Meeting, no further recommendation to be made,

CT2405-10

Boules Tournament

Deferred to June 2024 Meeting

CT2405-11

D-Day Celebrations

The Events Officer outlined how the D-Day Celebrations are being organised through The Friends of Oystermouth Castle. The event will take place on the 6th June 2024 at 7pm at Oystermouth Castle. Cllr. O'Neill has been invited as Chair of MCC but all Councillors are encouraged to participate. Cllr O'Brien will be in attendance in her capacity with RAF Cadets who will be contributing to the occasion. The beacon will be lit at 9.15pm to coincide with the national lighting of beacons.

CT2405-12

Mumbles Folk and Blues Festival

Cllr. Jarvis had previously circulated his report on a proposal for Mumbles to host a Folk and Blues Festival. Cllr Jarvis outlined key proposals which were at an early stage of development. This included using a number of venues, including many such as The Vic and Ty Cwrw that already host live music. All Councillors were enthusiastic about the project and the general consensus was that initial the event should be on a small scale, perhaps one day this Autumn or during 2025. In essence the event would be along the lines of The Brecon Jazz Festival or the Edinburgh Fringe Event but on a smaller scale. Whilst some sponsorship may be forthcoming from MCC it is hoped to raise most of the income through local business sponsorship and venues being self-funding through either already supporting acts or generating additional refreshment sales.

Such an event would stimulate additional tourism, the main source of income to Mumbles and hopefully result in additional revenue for local businesses including restaurants, pubs and taxi companies.

ACTION: Cllr Jarvis with assistance from other Councillors to research project including potential venues and finances ahead of June's Committee Meeting.

CT2405-13

To agree agenda items for June's Meeting

No specific agenda items raised however it was agreed that any suggestions should be forwarded to the Chair or CSO two days before the agenda setting meeting either through an email or on the WhatsApp Group.

The meeting ended at 2.47pm.

Next Meeting on 26th June 2024

Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu Dydd Mercher, 29 Mai 2024, am 2pm. Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

Cynghorwyr yn bresennol: Cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd) Rob Marshall (Is-gadeirydd), Tim Zhou, Martin O'Neill, Richard Jarvis a Rhian Evans

Swyddogion yn bresennol: Paul Beynon - Swyddog Ariannol Cyfrifol, Claire Anderson - Swyddog Digwyddiadau ac Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Cyn yr eitem gyntaf ar yr agenda, croesawodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor bawb yn ei chyfarfod cyntaf fel cadeirydd newydd y pwyllgor.

CT2405-01

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Dim

CT2405-02

Datganiadau o fuddiant

Nododd y Cynghorydd Jarvis y gallai fod ganddo, yn ystod eitem agenda [CT2405-12](#), fuddiant personol yn un o'r lleoliadau posibl gan ei fod yn aelod yn y lleoliad dan sylw.

CT2405-03

Ethol is-gadeirydd y pwyllgor

Cynigiodd y cynghorwyr Marshall a Zhou eu hunain yn is-gadeirydd ac eiliwyd yr enwebiadau hyn gan y cynghorwyr Jarvis ac O'Neill yn y drefn honno.

PENDERFYNWYD: Ethol Rob Marshall yn is-gadeirydd y pwyllgor.

CT2405-04

Cofnodion cyfarfodydd blaenorol y pwyllgor

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024 fel rhai cywir.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2024 fel cofnod cywir. Cynigwyd gan y Cynghorydd Marshall ac eiliwyd gan y Cynghorydd Evans.

CT2405-05

Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cymryd ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

PENDERFYNWYD: Bod camau gweithredu heb eu cymryd yn cael eu diweddarau a'u dangos fel rhai cyflawn lle bo'n briodol; bod manylion yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd.

CT2405-06

Adroddiad Monitro'r Gyllideb hyd at 31/03/2024 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon

Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, eisoes wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor, ac nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud ag adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod.

Eglurodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y bydd rhywfaint o wariant sy'n weddill yn cael ei ddangos o dan gyfnod blwyddyn ariannol 2023/2024 ac y bydd y ffigurau a ddangosir yn cael eu diwygio yn unol â hynny.

Yna aeth y Swyddog Ariannol Cyfrifol drwy bob eitem ar ei adroddiad cyllidebu gan fanylu ar y symiau a ragwelwyd i'w 'cario drosodd' ac esbonio symiau o danwariant a gorwariant fel y bo'n briodol. Gyda chytundeb aelodau'r pwyllgor a oedd yn bresennol, darparodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol hefyd ffigurau cyfredol, gan ystyried gwariant ers adroddiad mis Mawrth.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut i ddefnyddio 'tanwariant' y cyllidebau a chafwyd eglurhad mewn perthynas â'r cyllidebau oedd yn weddill mewn perthynas â Gŵyl y Mwmbwls, archif Hanes y Mwmbwls a phrosiectau gefeillio.

PENDERFYNWYD cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Mawrth 2024.

ARGYMHELLWYD cario'r swm o £2,000 ymlaen o 'danwariant' cyllidebau i flwyddyn ariannol 2024/25.

CT2405-07

Naws y Mwmbwls: Archwiliad ffotograffig



Roedd y Cynghorydd Zhou eisoes wedi dosbarthu adroddiad yn rhoi rhagor o wybodaeth am y prosiect arfaethedig. Amlygodd y Cynghorydd Zhou agweddau allweddol gan gynnwys dyddiadau amodol o 26 a 27 Hydref ar gyfer arddangosfa yn Ostreme. Roedd holl aelodau'r pwyllgor yn frwdfrydig am y prosiect a rhoddwyd ystyriaeth i gynnal yr arddangosfa mewn lleoliadau ar draws Cyngor Cymuned y Mwmbwls am wythnos o gwmpas y dyddiadau arfaethedig. Gall lleoliadau o'r fath gynnwys Llyfrgell Ystumllwynarth a neuaddau pentref yn Newton, Mayals a Blackpill.

Amcangyfrifir mai cost y prosiect arfaethedig fydd £1,750 a chynigiwyd y dylid darparu £500 drwy gyllideb y pwyllgor a darparu'r gweddill drwy lwfansau swyddogion unigol. Cynigiodd y Cynghorwyr Zhou, Marshall ac O'Neill i gyd gyfrannu i wneud iawn am y diffyg.

ARGYMHELLWYD rhoi £500 o gyllideb y Pwyllgor Diwylliant tuag at gost y prosiect (cyfanswm o £1,750 a ragwelwyd) gyda'r gweddill yn dod drwy lwfansau cynghorwyr unigol.

CT2405-08

Gŵyl y Mwmbwls (Diweddariad).

Manylodd y Swyddog Digwyddiadau, Claire Anderson, ar ei hadroddiad ar Wyl y Mwmbwls a oedd wedi'i ddosbarthu'n flaenorol i aelodau'r pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cadarnhad bod baneri a dulliau eraill o hysbysebu yn eu lle, cadarnhad o archebion digwyddiadau perthnasol, ynghyd â manylion y bar a'r gwerthwyr sydd wedi archebu lle.

Rhoddwyd rhestr manwl y bobl fydd yn perfformio ac amlinellwyd eitemau ategol gan gynnwys tocynnau, strapiau arddwrn, asesiadau risg ac allbynnau cyfryngau cymdeithasol hefyd.

CT2405-09

Argymhellion archebu Gŵyl y Mwmbwls

Yn dilyn cyfarfod y pwyllgor ym mis Ebrill, nid oes unrhyw argymhelliad pellach i'w wneud.

CT2405-10

Twrnamaint boules

Gohiriwyd tan gyfarfod mis Mehefin 2024

CT2405-11

Dathliadau D-Day

Amlinellodd y Swyddog Digwyddiadau sut mae Dathliadau D-Day yn cael eu trefnu trwy Gyfeillion Castell Ystumllwynarth. Cynhelir y digwyddiad ar 6 Mehefin 2024 am 7pm yng Nghastell Ystumllwynarth. Mae'r Cynghorydd O'Neill wedi'i wahodd fel Cadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls ond anogir pob cynghorydd i gymryd rhan. Bydd y Cynghorydd O'Brien yn bresennol yn rhinwedd ei swydd gyda Chadetiaid yr RAF a fydd yn cyfrannu at yr achlysur. Bydd y begwn yn cael ei oleuo am 9.15pm i gyd-fynd â goleuo cenedlaethol y begynau.

CT2405-12

Gŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls

Mae'r Cynghorydd Jarvis eisoes wedi dosbarthu ei adroddiad ar gynnig i'r Mwmbwls gynnal Gŵyl Gwerin a Blŵs. Amlinellodd y Cynghorydd Jarvis gynnigion allweddol a oedd ar gam cynnar yn eu datblygiad. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio nifer o leoliadau, gan gynnwys llawer fel The Vic a Thŷ Cwrw sydd eisoes yn cynnal cerddoriaeth fyw. Roedd pob cynghorydd yn frwd dros y prosiect a'r consensws cyffredinol oedd y dylai'r digwyddiad cychwynnol fod ar raddfa fach, efallai un diwrnod yr hydref hwn neu yn ystod 2025. Yn ei hanfod byddai'r digwyddiad yn debyg i Wyl Jazz Aberhonddu neu ddigwyddiad ymylol Caeredin ond ar raddfa lai. Er ei bod yn bosibl y daw rhywfaint o nawdd oddi wrth Gyngor Cymuned y Mwmbwls, y gobaith yw codi'r rhan fwyaf o'r incwm drwy nawdd gan fusnesau lleol a lleoliadau'n ariannu eu hunain drwy naill ai artistiaid sydd eisoes wedi ennill cefnogi neu drwy gynhyrchu gwerthiannau lluniaeth ychwanegol.

Byddai digwyddiad o'r fath yn ysgogi twristiaeth ychwanegol, y brif ffynhonnell incwm i'r Mwmbwls a'r gobaith yw y byddai'n arwain at reffeniw ychwanegol i fusnesau lleol gan gynnwys bwytai, tafarndai a chwmnïau tacsis.

CAM GWEITHREDU: Bod y Cynghorydd Jarvis gyda chymorth cynghorwyr eraill yn ymchwilio i'r prosiect gan gynnwys lleoliadau posibl a chyllid cyn cyfarfod y pwyllgor ym mis Mehefin.

CT2405-13

Cytuno ar eitemau agenda ar gyfer cyfarfod mis Mehefin

Ni nodwyd unrhyw eitemau agenda penodol ond cytunwyd y dylid anfon unrhyw awgrymiadau at y cadeirydd neu'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod gosod agenda naill ai drwy e-bost neu ar y grŵp WhatsApp.



Mumbles
Community Council

CT2405 -MI

Daeth y cyfarfod i ben am 2.47pm.

Cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin 2024